Rhifyn 2, Gorffennaf 2023

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# yr Athro

# Cynhadledd 2023



Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol UCAC 2023 yng Ngwesty'r Coldra Court, ger Casnewydd ar 5-6 Mai, 2023. Cafwyd cyfle i drafod materion byd addysg mewn cyfarfodydd ffurfiol, yn ogystal â chyfle i drafod a chymdeithasu yn anffurfiol.

Roedd y cynigion a ddaeth gerbron yn adlewyrchiad teg o'r hyn sydd ar frig agenda byd addysg ar hyn o bryd, yn eu plith materion yn ymwneud ag amodau gwaith, y Cwricwlwm i Gymru, y Bil Addysg Gymraeg. Mae'n siŵr y bydd y materion hyn yn bynciau trafod pellach o fewn yr Undeb ac yn ehangach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Datblygiadau digidol a'r Cwricwlwm i Gymru oedd themâu ein siaradwyr eleni a braf oedd gwrando ar gyfraniadau ysbrydoledig Meredudd Jones ac Alan Thomas Williams, y ddau siaradwr hefyd yn aelodau o UCAC. Cafwyd cyfle nid yn unig i glywed am y gwaith arbennig y mae'r ddau wedi ei wneud ond neilltuwyd amser hefyd i aelodau holi cwestiynau.

Er mwyn cael mwy o fanylion a blas pellach ar weddill y Gynhadledd.....daliwch ati i ddarllen!

t2 Y Cynigion
t3-9 Mwy o'r Gynhadledd
t10-12 Newyddion

# Y Cynigion



Roedd llyfryn cynigion y Cynadleddwyr yn cynnwys 21 o gynigion a chyflwynwyd pum cynnig brys. Yn ôl yr arfer, cafwyd cyfle i drafod a gwyntyllu ystod eang a diddorol o faterion, a oedd yn adlewyrchu'r pynciau sy'n bwysig ar hyn o bryd ym maes addysg.

Ymhlith y cynigion a basiwyd roedd rhai'n ymwneud ag amodau gwaith CADY, amodau gwaith penaethiaid a phenaethiaid aml-safle, recriwtio a chadw cymorthyddion a chanddynt y sgiliau Cymraeg angenrheidiol, dyddiau gwyliau athrawon, fformiwlau cyllido a threfniadau grantiau, yr angen dybryd i gael mynediad at gyrsiau amgen i garfan o'n dysgwyr, asesu'r Cwricwlwm i Gymru, recriwtio myfyrwyr a'u cadw yn y proffesiwn a'r Bil Addysg Gymraeg. Cafwyd trafodaeth ddiddorol ar y pynciau hyn yn ystod y penwythnos.

Pasiwyd 25 o gynigion. Roedd hi'n braf gweld wynebau hen a newydd yn cynnig ac yn eilio yn y Gynhadledd. Rwy'n siŵr y bydd clywed Hannah Howells yn cyflwyno'i chynnig gyda'r fath angerdd yn aros yng nghof cynadleddwyr am gryn amser. Yn yr un modd, braf oedd gweld cynadleddwyr profiadol yn parhau i weithio'n ddygn dros eu cyd-aelodau.




*Hannah Howells yn annerch y Gynhadledd*

## Tâl Aelodaeth UCAC 2023-24

Penderfynwyd gan y Cyngor Cenedlaethol yn ddiweddar y bydd rhaid codi tâl aelodaeth UCAC. Nid yw UCAC wedi cynyddu'r tâl aelodaeth ers 7 mlynedd, ond yn anffodus, oherwydd costau cynyddol mae angen gwneud eleni. Mae'r tâl aelodaeth yn parhau'n gystadleuol iawn o ran undebau eraill, ac yn sylweddol is na nifer o undebau, yn enwedig gan fod rhai yn codi taliad "lleol" ar ben y tâl arferol.

**O 1 Medi 2023 bydd tâl aelodaeth misol fel a ganlyn:**

| Categori aelodaeth | Tâl misol |
|---|---|
| Aelodau Llawn Amser | £18.25 |
| Aelodau Rhan Amser 0.7-0.99 | £15.30 |
| Aelodau Rhan Amser 0.4-0.69 | £12.35 |
| Aelodau Rhan Amser O Dan 0.4 | £10.20 |
| Cyfaill | £2.15 |
| Blwyddyn galendr gyntaf o addysgu | AM DDIM |
| Ail flwyddyn galendr o addysgu | HANNER PRIS |

## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Heulwen Howells

**Is-Lywydd:** Geraint Phillips

**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones

**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies

**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC. Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

# Pwy sy'n Arbenigwr Digidol?

## Meredudd Jones

Braf oedd cael cwmni Meredudd Jones, athro yn Ysgol Maes y Gwendraeth a chlywed am ei siwrnai ddiddorol ef i fod yn Gyd-gysylltydd Sgiliau Digidol yn Ysgol Maes y Gwendraeth, Cefneithin, Sir Gaerfyrddin ac yn sefydlydd Yr Ysgol Ddigidol. Mae e'n disgrifio ei gefndir ym myd addysg yn 'ychydig o fara brith'. Rhaid cydnabod bod y bara brith hwnnw wedi profi i fod yn fara brith digon blasus!

Efallai ei fod braidd yn syndod i Meredudd ddechrau ei anerchiad drwy ddweud 'Dydw i ddim yn arbenigwr ar Dechnoleg Gwybodaeth', ond wedi iddo fachu ein sylw gyda gosodiad o'r fath, nid oedd angen gwrando'n hir i wybod ei fod yn feistr ar ei faes.

Cafwyd cyflwyniad gonest ac roedd yn chwa a awyr iach i glywed rhywun sydd â'r fath gyfoeth o wybodaeth yn cydnabod nad oes gan unigolyn yr atebion i gyd. Rydym i ddysgu gyda'n gilydd ac oddi wrth ein gilydd. Nid un ffordd sydd o gyflawni tasgau TG, does neb yn gwybod yr atebion i gyd, yn wir nid oes y fath beth ag arbenigwr TG, gan fod y maes yn newid yn ddyddiol.

Fe'n hatgoffwyd o bwysigrwydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a bod TG yn rhan o nifer o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru, mae elfennau yn perthyn i'r Celfyddydau Mynegiannol, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae gan y cyd-gysylltwyr sgiliau digidol gryn gamp wrth orfod cadw llygad ar gymaint o wahanol feysydd. Nodwyd y pwysigrwydd o wahaniaethu rhwng 'dysgu' sgiliau a 'defnyddio' sgiliau. Wrth i athrawon TG 'ddysgu' sgiliau i ddisgyblion, mae'n bwysig eu bod yn cael y cyfleoedd i 'ddefnyddio' y sgiliau hynny o fewn i'r pynciau eraill. Mae Meredudd hefyd yn credu'n gryf fod angen gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gwybod pam eu bod yn gwneud rhywbeth. Dyma mae Meredudd yn ei ddweud 'Os am ddysgu sgiliau anodd, mae plant (wel, pawb mewn gwirionedd), am wybod bod y canlyniad terfynol yn un gwerth chweil – mae anelu am rywbeth penodol yn bwysig er mwyn adeiladu hyder.' Cred Meredudd hefyd y dylai pob hyfforddiant gynnig gwell profiadau i staff a disgyblion ac na ddylai hyfforddiant fod yn ddibynnol ar ddyfeisiau neu apiau penodol. Y sgil sy'n bwysig nid dyfais neu ap penodol ac nid oes angen



meddalwedd penodol er mwyn meistroli sgil. Mae mwy nag un ffordd o gyflawni'r un nod.

Pan ddaeth y pandemig trawsnewidiwyd ein dulliau o gyflwyno gwersi i ddisgyblion a daeth y dechnoleg ddigidol yn offeryn hynod o bwysig. Wrth i wersi gael eu cyflwyno'n rhithiol, bu'n rhaid i bob athro fireinio ei sgiliau digidol. Wynebai Meredudd gwestiynau di-rif oddi wrth athrawon eraill ynghylch y dechnoleg a'r dulliau rhithiol newydd. Yn hytrach na gorfod ateb yr un cwestiynau dro ar ôl tro, aeth ati i lunio fideos i esbonio sut i ddefnyddio'r dechnoleg, yn ogystal â syniadau am wersi. I ddechrau, ymddangosai'r clipiau fideo hyn ar wefan yr ysgol, ond gan fod cymaint ohonynt bu'n rhaid mynd ati i lunio sianel newydd, sef 'Yr Ysgol Ddigidol'. Buan y sylweddolodd Meredudd fod athrawon yn croesawu'r datblygiad hwn yn fawr a chafodd ymateb o bob cwr o Gymru. Bellach mae'r wefan yn cynnwys gwledd o adnoddau – rhai ohonynt am ddim ac eraill i'w prynu.

Os ydych am wybod mwy, ewch i wefan Yr Ysgol Ddigidol i weld drosoch eich hun - Yr Ysgol Ddigidol – Sgiliau digidol i ysgolion Cymru. (ysgol-ddigidol.cymru)

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth ddifyr – nifer yn cydnabod eu dyled i wefan Yr Ysgol Ddigidol, yn ogystal â thrafodaeth ar faes sydd eisoes wedi dechrau bod yn faes dadleuol – maes deallusrwydd artiffisial.

# Creu Dyfodol Llwyddiannus a Chyffrous….

## Alan Thomas-Williams

Pleser mawr oedd derbyn arweiniad ar drefniadau Cwricwlwm i Gymru gan Alan Thomas Williams, aelod o UCAC a Swyddog Cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru yng Nghaerdydd.  Roedd yn gyflwyniad hynod o ddiddorol a arweiniodd at nifer o gwestiynau gan fynychwyr y gynhadledd yn un o sesiynau cynnar bore Sadwrn.

Un o ddatganiadau cyntaf Alan oedd nad oedd yn ystyried ei hunan yn arbenigwr ond mae athrawon ac ysgolion Caerdydd yn hynod o lwcus i dderbyn arweiniad o safon mor uchel ac arbenigol gan Alan.

Gweledigaeth Alan yw fod y Cwricwlwm yn dod i fyw yn yr ysgolion.

Un o heriau cynnar Alan yw datblygu'r Cwricwlwm yn ardaloedd llai breintiedig y ddinas ac ymestyn dyheadau plant. Gan fod gan Alan gefndir yn y byd darlledu, mae ganddo fforwm o bartneriaid a chysylltiadau sydd o gymorth mawr.

Aeth Alan ati i sefydlu sawl peth yn y ddinas. Bu'n rhaid llunio model clwstwr effeithiol wrth wyntyllu syniadau gyda phenaethiaid. Trefnwyd sesiynau bob pythefnos, gyda'r rhanddeiliaid yn rhaeadru yn ôl i ysgolion. Craidd y Cwricwlwm medd Alan yw'r her o benderfynu sut ydym yn dysgu a pham ydym yn ei ddysgu, gan gydnabod fframwaith cenedlaethol ond gan wneud penderfyniadau ar lefel ysgol. Mae gweledigaeth ysgol yn sylfaen i'r Cwricwlwm ac wrth gynllunio, treialu a gwerthuso, mae cyd- destun yr ysgol yn allweddol. Mae'r byd wedi newid yn gyson ers Deddf Addysg 1988 a dyfodiad TGAU ac mae angen i addysg gydnabod hyn.

Nid yw'r un person yn y system yn arbenigwr ar ddylunio'r Cwricwlwm ac nid oes angen i athrawon deimlo'n bryderus gan fod pawb yn treialu. Mae gwaith mawr o'n blaen ar y meysydd profiad a dysgu ond mae yna gefnogaeth gan bobl sydd wedi bod yn rhan o gynllunio'r Cwricwlwm. Y broses sy'n bwysig,  nid y darn o bapur ar y diwedd. Bu rhywfaint o gyllid ar gael i rhyddhau staff a bu angen datblygu mapiau ym mhob maes, gan ddefnyddio arbenigedd timau o athrawon y clwstwr.




Mae Alan yn cydnabod fod yr her yn anoddach i athrawon uwchradd.

Cyfnod o adolygu, treialu a gwerthuso fydd ail flwyddyn y prosiect. Mae yna gydweithio agos a phob pennaeth yn cytuno ar werth rhaglen y clwstwr. Y bwriad yw canolbwyntio ar un maes dysgu bob hanner tymor. Mae yna broses hylif mewn lle, sy'n cadw'r Cwricwlwm yn fyw. Mae cysylltiadau diwydiannol hefyd yn rhan bwysig o'r rhaglen.

Yn anffodus, nid oes cyllid i ariannu ystod eang o brofiadau ond gall y byd diwydiannol gyfrannu'n helaeth at brofiadau disgyblion, at greu adnoddau ac at gynorthwyo ym myd gyrfaoedd, a hyn oll heb gost i ysgolion. Ymddengys fod cwmnïau bychain yn fwy parod i gynorthwyo a chydweithio na'r cwmnïau mawr. Mae Alan wedi sefydlu adnodd Y Porth ar gyfer ysgolion Caerdydd, sydd yn bwynt canolog i bob ysgol gael mynediad at adnoddau, cymorth a chefnogaeth.

Mae'n amlwg bod Alan wedi dangos y ffordd ymlaen yn fanwl ac yn hyderus a'r gobaith yw y bydd arweiniad a chymorth o'r fath ar gael ym mhob rhan o Gymru.

# Araith Geraint Phillips

## Llywydd 2023-24, yn y Gynhadledd

Braint ac anrhydedd yw sefyll yma o'ch blaen fel yr Is-lywydd, ond braint ac anrhydedd o'r mwyaf yw sefyll yma fel eich darpar Lywydd ar gyfer y flwyddyn ysgol 2023-24. Hoffwn ddiolch yn fawr am yr enwebiad ac am y cyfle i'ch gwasanaethu chi, aelodau UCAC.

Mae'n draddodiadol ar y pwynt yma i gyflwyno rhywfaint o wybodaeth gefndirol, felly dyma chi. Yn Haf 1981, ganwyd mab a phlentyn cyntaf Keith a Gaynor Phillips, sef Geraint Glyn. Ddwy flynedd ac un diwrnod yn ddiweddarach, ganwyd fy chwaer, Sara Anwen. Rydym fel teulu wedi byw ym mhentref Rhosllannerchrugog, ger Wrecsam, ers hynny yng nghwmni teulu ehangach a ffrindiau. Yn 2005, bu i mi briodi fy nghariad ers yn 16 oed, Kathryn (er ei bod yn dod o'r pentref nesaf lawr yr allt). Flwyddyn yn ddiweddarach, ganwyd ein mab hynaf, a ddwy flynedd wedyn ganwyd ein hail fab. Rwyf hefyd wedi bod yn aelod o Gôr Meibion Rhos ers tua 12 mlynedd, gan deithio hyd a lled y wlad yn perfformio gyda nhw. Ar y pwynt yma, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i Kathryn am ei holl gefnogaeth dros y blynyddoedd, heb sôn am ei hamynedd gyda'r holl gyfarfodydd ysgol, côr, llywodraethwyr ac UCAC sydd raid i mi eu mynychu, a hynny tra bo dau fab sy'n angerddol am eu pêl droed yn gorfod mynychu sesiynau hyfforddi a gemau diddiwedd a gwaith llawn amser fel Rheolwraig Cyllid yn Kellogg's. Hoffwn ddiolch iddi hefyd am ddod i'r Gynhadledd i fy nghefnogi– rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr.

Derbyniais fy addysg gynradd yn Ysgol I.D. Hooson, Rhosllannerchrugog, lle bu i mi gyfarfod â fy ffrind agosaf, Dyfan. Rwy'n ddiolchgar iawn iddo ef hefyd am fynychu'r gynhadledd eleni. Wedi gorffen addysg gynradd, es i i Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam er mwyn derbyn fy addysg uwchradd. Ar ôl cwblhau fy nghyrsiau TGAU a Lefel A, es i i Brifysgol Cymru, Aberystwyth, i ddilyn cwrs gradd Drama gyda Ffilm a Theledu. Wedi treulio tair blynedd hapus yno, penderfynais ddilyn cwrs TAR am flwyddyn ychwanegol a dilyn fy nhad i mewn i fyd addysg. Wel, dwi'n dweud bod y tair blynedd wedi bod yn hapus. Doeddwn i ddim yn mwynhau'r siwrne pedair awr i Gaerdydd ar fws y Traws Cambria i fynd i




ymweld â Kathryn - dwi dal yn twitchio pan dwi'n clywed yr enwau Llanon, Llandysul a Sarn.

Ar ôl gorffen y cwrs TAR, a minnau heb swydd ar gyfer mis Medi, bu i Kathryn a fi symud i fyw yng Nghaerdydd gyda'n gilydd, gan rentu llawr gwaelod tŷ yng Nghyncoed. Roedd Kathryn wedi derbyn swydd yno ac roeddwn i wedi cofrestru fel athro cyflenwol. Ar ôl blwyddyn o waith cyflenwol yn ardal Caerdydd a Chas-gwent, derbyniais swydd Pennaeth Cyfryngau ac athro Drama yn ôl yn fy hen ysgol uwchradd, Ysgol Morgan Llwyd, lle rwyf yn parhau i weithio 19 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Cefais fy mhrofiad cyntaf o gynadleddau UCAC yng ngwesty'r Metropole, Llandrindod yn 2014 ar achlysur sefydlu Ioan fel y Llywydd Cenedlaethol. Bu iddo fwynhau'r profiad gymaint fel ei fod wedi ein gadael yn Wrecsam ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach a dod i weithio i'r undeb. Tan iddo adael yr ysgol, fi ac Ioan oedd y 'dream team' yn goruchwylio disgyblion ar deithiau ysgol dramor – Unol Daleithiau America, Yr Almaen, Gwlad Belg, Ffrainc. Yn wir, tan yn ddiweddar iawn,

parhad tud 6

parhad o dudalen 5

# Araith Geraint Phillips

## Llywydd 2023-24, yn y Gynhadledd

roeddwn i wedi ymweld â mwy o wledydd tramor gydag Ioan nag oeddwn i gyda fy ngwraig. Beth bynnag, dyma ddechrau ar fy nhaith i gydag UCAC. Tan hynny, doeddwn i ddim wedi deall yn iawn beth oedd gwaith yr Undeb. Yn y gynhadledd honno nôl yn 2014, bu i mi gyfarfod ag unigolion a oedd yn angerddol am addysg, y Gymraeg, disgyblion, cyd-weithwyr a chael chwarae teg iddynt oll. Des i i ddeall bod aelodaeth o undeb yn golygu llawer mwy na chael 'safety net' os eith pethau o'i le yn yr ysgol. Ar ôl i Ioan adael yr ysgol, fi ddaeth yn Ysgrifennydd Sir Wrecsam ac yn gynrychiolydd ysgol, ac rwy'n falch o fod wedi gallu cynnig cyngor a chysur i gyd-aelodau lleol pan fo'r angen wedi codi.

Fel y dywedais ar y cychwyn, braint ac anrhydedd yw cael sefyll yma fel darpar Lywydd UCAC ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'r blynyddoedd diweddar – yn ystod ac yn dilyn COVID- wedi dangos ein proffesiwn ar ei orau, ond hefyd wedi taflu sialensiau newydd tuag atom. Roedd yn destun balchder mawr i mi o weld y ffordd wnaeth staff ysgol addasu ac ymateb i'r her o barhau i addysgu disgyblion yn ystod y cyfnodau clo. Roedd gweld y dulliau amrywiol, diddorol a chreadigol o ysgogi ein pobl ifanc gafodd eu datblygu a'u defnyddio wedi dangos pa mor ofalgar a phroffesiynol yw byd addysg yng Nghymru - rhywbeth na chafodd ei werthfawrogi'n llawn gan bawb ar y pryd, efallai. Wrth i ysgolion ailagor, gwelsom sgil effeithiau'r cyfnodau clo ar bobl ifanc – boed hynny'n addysgiadol, yn gymdeithasol, neu'n ddatblygiadol – ac roedd rhaid ymateb i'r heriau hynny gyda'r un brwdfrydedd a phroffesiynoldeb. Rydym dal ar y daith honno, wrth gwrs. Wrth i'r gwaith hyn fynd rhagddo, braf oedd gweld natur bositif y trafodaethau rhwng yr undebau llafur a Llywodraeth Cymru wrth drafod tâl ac amodau gwaith athrawon. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau yn ystod fy llywyddiaeth i a hoffwn bwysleisio y byddwn innau yn brwydro i sicrhau'r canlyniadau gorau i chi hyd orau fy ngallu, nid dim ond er ein lles ni ond hefyd er lles y disgyblion rydyn ni'n eu haddysgu ac er lles ein hysgolion.

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gael ymweld ag aelodau ac ysgolion yn ystod fy llywyddiaeth er mwyn gallu gwrando ar farn a syniadau cyd-aelodau, a hefyd mynd i'r afael â beth bynnag mae Ioan yn gofyn i mi wneud!

Diolch unwaith eto am y cyfle i fod yn Llywydd Cenedlaethol UCAC ac am y cyfle i'ch gwasanaethu.

# Uchafbwyntiau'




*Heulwen Howells - Llywydd UCAC*

Pleser o'r mwyaf oedd derbyn llywyddiaeth Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth y llynedd. Er i fy nechreuad deimlo braidd yn ansicr wrth i mi fentro y tu hwnt i'r byd gwaith sydd mor gyfarwydd i mi; byd y gweithlu ysgol, a fu'n rhan o'm gyrfa erioed, a hynny ers i mi adael yr ysgol fy hun yn ddisgybl, flynyddoedd maith yn ôl, bellach gallaf ddatgan ei bod wedi bod yn brofiad bythgofiadwy i mi.

Cyfnod digon rhyfedd oedd cyfnod fy llywyddiaeth ar y cychwyn, wrth i ni fynd i'r afael gydag ail-gydio yng ngweithgareddau'r Undeb, yn dilyn cyfnod heriol pandemig Covid-19 a'i gyfyngiadau di-ben-draw. Gydag arferion o gyfarfodydd ar-lein yn newid i ddull hybrid, daeth taw ar y cyfyngiadau, a erbyn hyn, mae'n hyfryd, cael cwrdd wyneb yn wyneb mewn cyfarfodydd unwaith eto.

Wrth edrych yn ôl ar fy mlwyddyn fel Llywydd atgofion melys iawn sydd gennyf o'r profiad hynny. Un o'm hoff brofiadau oedd cael cyfleoedd i ymuno gyda'r swyddogion maes wrth iddynt ymweld gydag aelodau mewn ysgolion. Teimlad braf oedd cael mynd i wahanol leoliadau a chael sgwrsio gyda'r arweinwyr ac athrawon yno a darganfod taw profiadau digon tebyg i fy mhrofiadau personol fel athrawes oedd eu profiadau hwythau sef ansicrwydd am y ffordd gywir fynd i'r afael gyda chynllunio'r Cwricwlwm i Gymru, pwysau gwaith CADYau mewn ysgolion a phwysau gwaith yn gyffredinol ar y gweithlu addysg ac effeithiau Covid 19 ar y dysgwyr o ran eu sgiliau ac ymddygiad wrth ail-gydio ym mywyd a gwaith yr ysgol.

# ’r Flwyddyn i Lywydd 2022-23

Er mai braidd yn denau ar adegau oedd niferoedd yr aelodau mewn ambell sir, braf hefyd oedd cael mynychu cyfarfodydd sirol gyda’r swyddogion maes i gael sgwrsio gydag aelodau yr Undeb. Hoffwn eich annog fel aelodau i geisio gwneud pob ymdrech i fynychu eich cyfarfodydd sirol lleol eich hun mor aml ag sydd yn bosib i chi wneud. Maent yn lleoedd arbennig i gymdeithasu, derbyn gwybodaeth, rhannu syniadau, trafod materion cyfredol gyda’ch swyddog maes a chyd-aelodau ac wrth gwrs i gael pryd o fwyd blasus cyn troi am adref.

Cefais gyfleoedd rheolaidd i gyfarfod gydag Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb yn wythnosol er mwyn trafod ei weledigaeth wrth iddo gyflwyno gwelliannau i waith yr Undeb drwy ei Gynllun Datblygu. Edrychaf ymlaen at weld yr Undeb yn mynd o nerth i nerth wrth i’r gwelliannau ddwyn ffrwyth yn y misoedd a’r blynyddoedd nesaf.

Roedd cael bod yn bresennol yn yr amrywiol Bwyllgorau ac Adrannau yn agoriad llygad i mi gan i’r trafodaethau gynnwys materion cyllid ac ariannol, cydraddoldeb, pryderon a materion yn ymwneud gyda phwysau gwaith arweinwyr ac athrawon.

Braint oedd cael bod yn bresennol yng Nghynhadledd Flynyddol yr Undeb yng Ngwesty’r Coldra Court, Casnewydd ar y 5ed a 6ed o Fai, 2023. Diolchaf am y cyfle i gael gwrando ar y ddau siaradwr gwadd a’u cyflwyniadau ysbrydoledig sef Mr Meredudd Jones , Yr Ysgol Ddigidol a Mr Alan Thomas Williams, Swyddog Cwricwlwm Cyngor Sir Caerdydd. Yn sicr, fe fydd fy sgiliau digidol personol a sgiliau digidol fy nysgwyr yn siŵr o wella wrth i mi wneud defnydd o adnoddau Yr Ysgol Ddigidol a hefyd o ysgogiadau Mr Alan Thomas Williams o ran gwella fy nghynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wrth i mi ddychwelyd yn llawn amser i’r ysgol fis Medi ac ail-gydio yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol unwaith eto.

Dylanwadodd cynnwys a ‘gwaith calon’ cynhadledd arall wnes i fynychu yn ddiweddar sef Cynhadledd Arweinyddiaeth Genedlaethol DARPL sef ‘Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-Hiliol’ arnaf yn fawr iawn. Bûm yn ffodus i fynychu y gynhadledd hon gyda Swyddog Polisi yr Undeb yn gwmni. Er i ambell brofiad gan un neu ddau siaradwr bwyso yn drwm arnaf fel unigolyn, ar y diwrnod roeddwn wedi fy ysbrydoli gan nifer o’r siaradwyr oedd yn llawn syniadau am gyrraedd y nod o Gymru Gwrth-hiliol erbyn 2030.

Â minnau yn nhymor olaf fy llywyddiaeth a’r Undeb mewn dwylo diogel teimlaf falchder fy mod wedi cael bod yn Llywydd ar Undeb sy’n rhoi cant y cant i’w haelodau, a hynny gyda staff arbennig sy’n cynghori a chefnogi ei haelodau, ac wrth oruchwylio eu hawliau fel gweithlu.

Mawr yw fy niolch i holl deulu’r Undeb am eu croeso, eu cyfeillgarwch a’u harweiniad yn ystod fy mlwyddyn fel Llywydd. Fel aelodau, gallwn fod yn ddiolchgar tu hwnt am frwdfrydedd, haelioni ac ymroddiad y staff wrth iddynt ein cefnogi. Diolchaf iddynt ar ran holl aelodau’r Undeb, am eu gwaith caled drosom fel proffesiwn.

Diolchaf i Gyngor Sir Ceredigion am fy rhyddhau am ddeuddydd bob wythnos ar gyfer ymgymryd â’r rôl. O ganlyniad, cefais y cyfle i gael amrywiol brofiadau gwahanol yn ystod y flwyddyn, profiadau fydd yn sicr yn gwella ansawdd fy ngwaith yn ôl yn yr ysgol fis Medi.

Hoffwn ddiolch o waelod calon hefyd i Bennaeth Ysgol Cenarth a’r Llywodraethwyr, am fy rhyddhau ddeuddydd yr wythnos, o’m dyletswyddau yn yr ysgol, er mwyn i mi ymgymryd â’r rôl fel Llywydd Cenedlaethol. Mawr yw fy niolch hefyd i’r athrawon cyflenwi a wnaeth gymryd cyfrifoldeb ac addysgu fy nosbarth yn fy absenoldeb yn ystod y deuddydd hwnnw. Ni fedraf anghofio ychwaith, ddiolch i gymhorthydd y dosbarth, am ei gwaith caled, wrth iddi sicrhau cefnogaeth a chysondeb i ddysgwyr ifanc y meithrin a’r derbyn yn Nosbarth y Ffrydiau, a hynny wrth i mi fynd a dod bob yn ail ddiwrnod, i mewn ac allan o’r dosbarth.

Gyda hynny o eiriau, o fis Medi ymlaen, mi fyddaf yn dychwelyd i weithio’n llawn amser yn yr ysgol yng Nghenarth. Pleser bydd cael bod nôl gyda’m teulu ysgol ac ail-gydio unwaith eto, yn llawn amser ym mywyd a gwaith yr ysgol mewn lleoliad sydd mor agos at fy nghalon. Heb os, bydd y profiadau a gefais eleni, yn fy rôl fel Llywydd Cenedlaethol, ar gof, ac yn cael lle canolog yn fy nghalon am byth.

Dymunaf bob llwyddiant i Undeb UCAC wrth wynebu’r dyfodol a diolch iddynt unwaith yn rhagor, am gael bod yn rhan o’i hanes a’i thaith, gan gofio wrth gwrs, mai mewn undeb mae nerth!



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Peniarth.cymru

RHAGORIAITH

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Trawsnewid addysg yng Nghymru
## Transforming education in Wales




Peniarth, yn cyhoeddi adnoddau addysgol Cymraeg a dwyieithog ers 2009.

RHAGORIAITH

Hyfforddiant wedi ei deilwra, ym maes:

- datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg
- gweithdai creadigol i hyrwyddo sgiliau llythrennedd dysgwyr.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth.

Rhagoriaith, yn darparu hyfforddiant Cymraeg ar lefel cenedlaethol ers 2013.

post@peniarth.cymru | siop.peniarth.cymru | Peniarth | CPeniarth

01267 676772 | rhagoriaith@pcydds.ac.uk | Rhagoriaith

# Anerchiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn y Gynhadledd Flynyddol

## Teyrnged i ddau a fu'n gweithio'n galed dros yr Undeb




Daeth ein Cynhadledd i ben eleni gydag anerchiad Yr Ysgrifennydd Cyffredinol, a rhoddwyd teyrnged i ddau aelod sydd wedi ein gadael ers y Gynhadledd diwethaf ac fu'n amlwg iawn yng ngwaith yr Undeb am flynyddoedd. Estynnwyd cydymdeimlad ffurfiol yr Undeb i'w teuluoedd yn ogystal.

Gan gydnabod bod sawl aelod arall wedi ein gadael ers y Gynhadledd ddiwethaf, nododd Ioan ei fod yn awyddus i roi sylw penodol i'r ddau oherwydd eu bod wedi dangos ymroddiad mawr ac wedi gwneud gwaith gwych ar ran yr Undeb.

Bu i Ioan atgoffa'r Gynhadledd am ffraethineb Dilwyn Ellis Hughes mewn Cynhadledd a Chyngor, gan ymddiheuro nad oedd modd iddo ddyfynnu un o feddylwyr mawr Ffrainc wrth dalu'r deyrnged, fel yr oedd Dilwyn yn ei wneud yn aml wrth gyfeirio at seyllfa ym myd addysg Cymru. Bu Dilwyn yn cyfrannu am flynyddoedd fel Ysgrifennydd Sirol Gwynedd, fel Aelod o'r Cyngor ac fel Llywydd. Nododd Ioan pa mor ddiolchgar ydoedd am waith a chefnogaeth Dilwyn wrth iddo ymgymryd â'i rôl fel Swyddog Maes Y Gogledd nôl yn 2018.

Yn yr un modd, rhannodd Ioan faint ei ddyled i Gruff Hughes, yn enwedig am yr anogaeth a'r gefnogaeth yn dilyn ei groesawu gan Gruff i'w Gynhadledd Sirol gyntaf yn y Brookhouse Mill, Dinbych bron i ugain mlynedd yn ôl. Bu Gruff yn cynnal ac yn cefnogi aelodau am sawl blwyddyn fel Swyddog Maes Y Gogledd rhwng 1998 a 2006, yna'n Ysgrifennydd Cyffredinol hyd at 2008 ac wedyn fel ymddiriedolwr i'r Undeb am gyfnod.

Wedi coffau'r ddau, aeth Ioan ymlaen i ddatgan pa mor braf ydoedd i fod yn ôl mewn Cynhadledd 'arferol' am y tro cyntaf ers pedair blynedd, gan ofyn i'r cynadleddwyr ystyried y ffordd ymlaen o ran cynadledda a chyfarfod yn gyffredinol. Disgwylir y bydd newidadau i'r drefn o ran cyfarfod oherwydd yr angen i ymateb i ofynion newydd fel undeb.

Nododd Ioan fod sawl newid mewn sawl maes yn anorfod wrth i ni symud ymlaen. Anogodd Ioan y cynadleddwyr i barhau i weithredu ac ymateb a thynnodd sylw penodol at heriau'r Papur Gwyn Addysg Gymraeg, a'r angen i aelodau UCAC, fel yr arbenigwyr yn y maes, i ymateb a sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed.

Diolchodd i bawb am eu cyfraniad i waith yr Undeb, gan gynnwys y Tîm Llywyddol, Y Cyngor, ei ragflaenydd, Dilwyn Roberts-Young ac i staff a swyddogion UCAC, yn enwedig i Nia a Mererid am eu trefniadau gofalus o ran y Gynhadledd.

# Dechrau'n Gryf

## Ymchwil Achub Y Plant




- **Mae'r blynyddoedd cynnar yn gyfnod hollbwysig yn natblygiad plant. Ac eto, mae gormod o blant yng Nghymru yn mynd heb yr hyn sydd ei angen arnynt i gael dechrau teg yn yr ysgol.**
- **Dywed plant a rhieni fod y cyfnod o bontio i'r ysgol gynradd yn gyfnod pwysig ond hefyd yn gallu bod yn anodd.**
- **Gyda bron i 1 o bob 4 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, mae'r elusen yn galw am ddull mwy cydgysylltiedig a systemau symlach i helpu pob plentyn i ddechrau'n gryf yn yr ysgol.**

Mae ymchwil newydd gan Achub y Plant Cymru yn amlygu'r hyn sydd ei angen i helpu plant ifanc i ddechrau'r ysgol yn hapus ac yn hyderus, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.


**Mae copïau o'r adroddiadau yn seiliedig ar y gweithdai gyda phlant, rhieni ac ymarferwyr i'w gweld yma: www.savethechildren.org.uk/wales**

- **Adroddiad ar gyfer ymarferwyr:** starting_strong_main_report_cym.pdf (savethechildren.org.uk)
- **Canfyddiadau o weithdai gyda phlant**: starting_strong_childrens_report_cym.pdf (savethechildren.org.uk)
- **Canfyddiadau o weithdai gyda rhieni**: starting_strong_parents_report_cym.pdf (savethechildren.org.uk)

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Eurgain Haf, Uwch Reolwr Cyfryngau e.haf@savethechildren.org.uk / 07900 214 959**

# Gwneud Cymru y lle mwyaf diogel i weithio, byw a Chymdeithasu

Mae digwyddiadau brawychus a chyhoeddiadau am sefydliadau penodol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dod â thrais yn erbyn menywod i benawdau ein papurau newydd ac mae bellach yn destun trafodaeth gyson. Er mwyn ymateb i'r broblem enfawr yma sy'n effeithio ar y mwyafrif o ferched, mae TUC Cymru wedi creu pecyn cymorth defnyddiol: https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/2023-03/Sexual%20Harassment%20Toolkit%20-%20Cymraeg%20%281%29.pdf




Neges yr ymgyrch hon gan y TUC yw fod gan bawb ohonom ran i'w chwarae i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ac na ddylem ei wylio'n digwydd heb weithredu. Nid gweithred ddi-nod y dylid ei derbyn fel rhan anochel o fywyd bob dydd yw aflonyddu o'r fath. Dylem wneud yn siŵr fod popeth yn cael ei wneud o fewn ein gweithleoedd, gan gynnwys ein hysgolion, i sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel. Rhaid cofio fod aflonyddu rhywiol yn cynnwys ystod eang o ymddygiadau neu ryngweithiadau digroeso. Y tu ôl iddo mae'r awydd i ddangos grym a phŵer, gyda'r bwriad o godi ofn neu iselhau unigolyn arall. Gall fod yn gorfforol, yn eiriol, yn ddigidol neu hyd yn oed yn ddieiriau.

Nid yn unig mae 'aflonyddu rhywiol' yn broblem ond mae 'aflonyddu ar sail rhyw' hefyd yn broblem. Mae 'aflonyddu rhywiol' yn ymddygiad digroeso o natur rywiol. Mae aflonyddu 'ar sail rhyw' yn ymddygiad digroeso sy'n canolbwyntio ar ryw neu rywedd. Gall hyn gynnwys gwneud jôcs rhywiaethol neu fychanol am ferched yn y gweithle. Mae rhai dylanwadwyr ar y we hefyd yn annog syniadau negyddol a chasineb yn erbyn menywod. Mae'n bwysig bod ysgolion yn ymwybodol o'r aflonyddwyr hyn – rhai ohonynt yn benodol i Gymru.

Mae gan bob math o aflonyddu y potensial i gynnwys ymddygiad sydd â'r bwriad neu'r effaith o naill ai amharu ar urddas unigolyn neu greu amgylchedd y mae'r unigolyn yn teimlo ei fod yn fygythiol, yn anghyfeillgar, yn ddiraddiol, yn fychanol neu'n sarhaus.

# Aelodau Staff Newydd

Gan fod Ffion a Gwenno bellach ar gyfnod mamolaeth, bu'n rhaid penodi Swyddog Cyllid a Swyddog Aelodaeth a Recriwtio dros dro. Mae'n braf cael croesawu Siân James a Céire Tierney i fod yn rhan o deulu UCAC.



Un o Dal-y-bont, ger Aberystwyth yw Siân James sy'n gweithio fel Swyddog Cyllid yn ystod cyfnod mamolaeth Ffion Evans. Mae ganddi brofiad helaeth o faes cyllid, gan iddi weithio am gyfnod mewn banc yn Aberystwyth, cyn ymuno â Chyngor Sir Ceredigion, lle bu'n gweithio am ddwy flynedd ar hugain.

Mae ganddi ddiddordeb mawr mewn cadw'n heini ac mae'n treulio ei hamser hamdden yn mynd i'r gampfa ac yn beicio. Nid yn unig mae hi ei hun yn cadw'n heini, ond ganddi gymhwyster i ddysgu Pilates ac mae'n cynnal dosbarthiadau i unigolion, yn ogystal ag i grwpiau.



Un o Borth Tywyn, ger Llanelli yw Céire Tierney ac mae ei phrofiad o weithio mewn ysgol am ddeng mlynedd yn werthfawr iddi wrth iddi ddechrau ar ei gwaith gydag UCAC. Rhoddodd y gorau i'w swydd mewn ysgol er mwyn dilyn ei diddordeb mewn Celf ac astudiodd ar gyfer gradd yn y pwnc, gan raddio yng nghanol y pandemig yn 2021. Mae Céire wrth ei bodd gyda phob math o Gelf, gan gynnwys Cerameg a Gemwaith. Céire yw ein Swyddog Aelodaeth a Recriwtio yn ystod cyfnod mamolaeth Gwenno.

Croeso mawr i'r ddwy ohonynt.


meddwl.org

Gwybodaeth a phrofiadau **iechyd meddwl** drwy gyfrwng y Gymraeg

meddwl.org
facebook.com/meddwl
@gwefanmeddwl
@gwefanmeddwl
@gwefanmeddwl
post@meddwl.org





HYBU CIG CYMRU
MEAT PROMOTION WALES

**Taith Maeth Bwyd HCC**

Dyma gyflwyno Hwb Addysg - Hybu Cig Cymru
hwbcigcoch.cymru

- Hwb o adnoddau atyniadol AM DDIM i athrawon
- Ar gael yn ddwyieithog
- Addas ar gyfer Cyfnod Sylfaen i CA4
- Ystod o bynciau gan gynnwys ffermio cynaliadwy, diet cytbwys a choginio gyda chig coch
- Dyluniwyd o gwmpas y cwricwlwm newydd
- Cefnogir gan athrawon
- Seiliwyd ar ffynonellau a pholisïau cyfoes

Ar gael: Cyflwyniadau PowerPoint, taflenni gwaith, fideos, gemau, banc ryseitiau, posteri a gweithgareddau rhyngweithiol.



hwbcigcoch.cymru